Ask for/*Gofynnwch am* **Deborah Weston**
Our Ref/*Ein Cyf* **DW/FED/E&SPSP**
Your Ref/*Eich Cyf*
Tel/*Ffôn* **01633 656656**
Direct Dial/*Rhif Union* **01633 210631**
DX
E-Mail/*E-Bost* school.reorg@newport.gov.uk

Education Service
Gwasanaeth Addysg

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

3 Mehefin 2019

Annwyl Randdeiliad

Ynghylch: Cynnig i sefydlu ffederasiwn ysgol yn ymgorffori Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd, yn cynnig defnyddio'r pwerau a roddir iddynt dan ***Reoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014*** i sefydlu **Partneriaeth Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton**.

Mae ***Rheoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014*** yn amlinellu'r gofyniad statudol i geisio barn rhanddeiliaid ar gynigion ffedereiddio. Felly rydym yn eich gwahodd i roi eich barn drwy gymryd rhan yn ein hymgynghoriad statudol. **Bydd cyfnod yr ymgynghoriad yn dechrau heddiw, 3 Mehefin 2019 a daw i ben ar 14 Gorffennaf 2019.**

Gellir gweld y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ar http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx ac ar wefan Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton hefyd. Gallwch gael golwg ar y copïau caled yn y ddwy ysgol.

Mae'r cyfnod ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Gallwch roi eich sylwadau'n ysgrifenedig i un o'r ddau gorff llywodraethu neu i'r ALl yn y cyfeiriadau canlynol:

- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell, Heol Cas-gwent, Casnewydd, NP19 8GX
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Somerton, Hawthorne Fosse, Casnewydd, NP19 9AB
- Prif Swyddog Addysg, Ystafell 425w, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd adroddiad yn cael ei baratoi a fydd yn amlinellu unrhyw sylwadau sy'n dod i law. Ar ddechrau Tymor yr Hydref 2019, bydd pob corff llywodraethu'n penderfynu a yw'n awyddus i fwrw ymlaen â'r cynnig i gael cymeradwyaeth swyddogol Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd.

Yn gywir



Sarah Morgan
Prif Swyddog Addysg